# Mae treftadaeth yn golygu busnes



Y llun drwy garedigrwydd Castell y Gelli

Mae Tai Hanesyddol Cymru yn cynrychioli bron i 100 o dai a gerddi sydd dan berchnogaeth annibynnol ym mhob cwr o Gymru, ac maent yn cynnwys nifer o'r mannau mwyaf eiconig a hanesyddol ein gwlad. Yn 2025 croesawodd aelodau Tai Hanesyddol Cymru dros 365,000 o ymwelwyr, gan gynnal swyddi sy'n gyfwerth â rhagor na 360 o swyddi amser llawn a chreu dros £23 miliwn yn benodol i economi Cymru. Mae llawer o'r mannau hyn yn atyniadau hanfodol bwysig i dwristiaid, yn fusnesau bychain ac yn gyflogwyr lleol yn economïau bregus ein hardaloedd gwledig.

Canfyddiad arolwg diweddar ym mysg ein haelodau oedd mai'r heriau mwyaf cyffredin sy'n eu hwynebu yw'r gost gynyddol o redeg busnes, y cynnydd parhaol mewn rheoliadau a'r baich cynyddol yn y dreth. Heb reoliadau a deddfwriaethau cefnogol, mae ceidwaid ein treftadaeth yn wynebu dyfodol ansicr.

Mae treftadaeth yn hybu iechyd, lles a thwf yn yr economi leol. Rhaid i Lywodraethau Cymru a San Steffan sylweddoli gwerth diwylliannol a chymdeithasol ein tai a'n gerddi unigryw a hanesyddol drwy lunio polisïau sy'n galluogi iddynt ffynnu.

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth Cymru fel bod posibl llunio polisi sy'n galluogi atyniadau treftadaeth ac economïau lleol ddod yn fwy cynaliadwy, ac sy'n annog ymwelwyr i ymweld â phob cwr o Gymru.

*Gofynion allweddol ein polisi yw:*

## 1. Ymfalchïo yn nhreftadaeth gyfoethog Cymru a'i awdurdodi

Mae treftadaeth a hanes unigryw Cymru yn greiddiol i'n hunaniaeth genedlaethol ac mae trysori ein mannau hanesyddol yn hanfodol i ysbrydoli'r genhedlaeth bresennol a phlant ein plant. I warchod ein gwaddol, rhaid i ni greu fframwaith fydd yn gefn i berchnogion ein hadeiladau hanesyddol er sicrhau bod diwylliant Cymru yn goroesi a ffynnu.

## 2. Gwarchod ein treftadaeth rhag pwysau rheoliadau diangen

Mae ein treftadaeth yn dibynnu ar fframwaith o gefnogaeth ariannol a rheoliadol, a gall amrywiadau bychain i reoliadau ddwyn effeithiau dinistriol. Mae dros 94% o'n haelodau yn poeni am y trothwy o 182 diwrnod i letygarwch byr dymor, gan y bydd hyn bron yn amhosibl i ddarparwyr bychain mewn ardaloedd gwledig. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried lawn effaith economaidd y rheoliadau arfaethedig ar ein treftadaeth.

## 3. Cynnal twf yn economi twristiaeth Cymru

Mae treftadaeth yn symbylu twristiaeth a bydd yn allweddol i gyrraedd targed Llywodraeth San Steffan o 50 miliwn o ymwelwyr pob blwyddyn, ond ni ddaw'r maen hwn i'r wal heb isadeiledd llwyddiannus i dwristiaeth. Mae'n gwbl hanfodol bod unrhyw incwm a daw o ardollau ymwelwyr yn cael ei neilltuo'n uniongyrchol ar gyfer y sector dwristiaeth leol.

## 4. Creu gwelliannau mewn cynllunio ym meysydd treftadaeth a'r amgylchedd

Mae'r blynyddoedd nesaf yn greiddiol at arwain Cymru tuag at Sero Net, sy'n gofyn i bob adeilad, hanesyddol neu fel arall, i addasu. Fodd bynnag, mae traean o'n haelodau yn poeni'n arw am y drefn gynllunio sy'n llesteirio datgarboneiddio. Rhaid cael cyllid digonol a hyfforddiant i staff cynllunio cyn y gellir cyrraedd cynllun sy'n cefnogi effeithlonrwydd mewn ynni a hynny heb beryglu ein treftadaeth.

## 5. Hybu buddsoddiad mewn projectau atgyweirio

Mae cynnal a chadw adeiladau hanesyddol yn hynod gostus. Dylai Llywodraeth Cymru deisyfu ar Lywodraeth San Steffan i ysgafnhau'r TAW ar atgyweirio adeiladau a chynnal a chadw atyniadau treftadaeth sydd ar agor i'r cyhoedd. Byddai cynllun o'r fath yn codi o leiaf £7 miliwn o elw net i'r Trysorlys ac yn galluogi perchnogion i fuddsoddi mewn atgyweirio hanfodol a chefnogi economïau lleol yn ogystal â gwarchod ein treftadaeth am ganrifoedd i ddod.

TAI HANESYDDOL CYMRU

TAI HANESYDDOL CYMRU

# *Dylanwad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol tai hanesyddol annibynnol*



Croesawyd ymron i

**365,000**

o ymwelwyr gan aelodau Tai Hanesyddol Cymru yn 2025

Crëwyd tua

**£23M**

mewn gwariant ymwelwyr i economi Cymru

Cyflogwyd tua chyfwerth o

**360**

staff amser llawn



## *Yn ôl arolwg aelodau Tai Hanesyddol y DU, bydd effaith y newidiadau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref 2024 yn cynnwys y canlynol:*

Dywed

**87%**

o aelodau Tai Hanesyddol y bydd **effaith andwyol** yn sgil y newidiadau a gyhoeddwyd i'r Dreth Etifeddiaeth

Dywed

**54%**

y bydd y newid i gymorth yn y Dreth Etifeddiaeth yn peri iddynt fod yn **anabl i ddatblygu/ arallgyfeirio eu busnesau**

Dywed

**41%**

y bydd yn rhaid iddynt **ddiswyddo neu beidio cyflogi ymhellach** o ganlyniad i'r newidiadau yn y Gyllideb


## *Cadw ein mannau hanesyddol yn fyw ac yn hygyrch i genedlaethau'r dyfodol*



Dywed ein haelodau yn y DU bod ganddynt gyfanswm o

**£2 biliwn**

o waith atgyweirio a chynnal a chadw eto i'w wneud er gwario **tua £160,000 yr un yn 2024**



Mae dros

**47%**

o fannau Tai Hanesyddol wedi **gohirio neu ddileu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hanfodol** gan fod yr arian yn brin rhwng 2020 a 2022



Gallai cyflwyno **cynllun ad-daliad yn y Dreth ar Werth** i adeiladau cofrestredig sydd ar agor i'r cyhoedd gynhyrchu

**£7 miliwn**

mewn **lles economaidd** a chreu tua **300,000 yn rhagor o ymweliadau** pob blwyddyn

Casglwyd y data gan Arolwg Aelodau Tai Hanesyddol 2025/26; *Arolwg Effaith Cyllideb 2024* ar Dai Hanesyddol, Rhagfyr 2024; *Ad-daliadau TAW: Lleihau costau cynnal a chadw mannau treftadaeth* y DU gan Tai Hanesyddol a Harlow Consulting, Ionawr 2025; ac *Yr Astudiaeth o Fanteision Economaidd, Cymdeithasol, Diwylliannol ac Amgylcheddol Tai a Gerddi Hanesyddol 2022* a gynhaliwyd gan Saffery Champness/Nordicity.